ATODLEN 1

Rheoliad 16(1)

RHAN 3

GWYBODAETH AM DEULU'R PLENTYN AC ERAILL

Gwybodaeth am bob rhiant i'r plentyn (gan gynnwys y rhieni naturiol a mabwysiadol) gan gynnwys tad nad oes ganddo gyfrifoldeb rhiant am y plentyn

1. Enw, rhyw, dyddiad a man geni a chyfeiriad gan gynnwys ardal yr awdurdod lleol.

2. Llun, os oes un ar gael, a disgrifiad corfforol.

3. Cenedl(**1**).

4. Tarddiad hiliol a chefndir diwylliannol ac ieithyddol.

5. Cred grefyddol, os oes un.

6. Disgrifiad o'u personoliaeth a'u diddordebau.

Gwybodaeth am frodyr a chwiorydd y plentyn

7. Enw, rhyw a dyddiad a man geni.

8. Llun, os oes un ar gael, a disgrifiad corfforol.

9. Cenedl(**2**).

10. Cyfeiriad, os yw'n briodol.

11. Os unrhyw frawd neu chwaer o dan 18 oed—

(a) ym mha le a gyda phwy y mae ef neu hi yn byw;

(b) a yw'n derbyn gofal neu a ddarperir llety iddo neu iddi o dan adran 59(1) o Ddeddf 1989;

(c) manylion unrhyw orchymyn llys a wnaed ynglyn ag ef neu hi o dan Ddeddf 1989 gan gynnwys enw'r llys, y gorchymyn a wnaed a'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn; ac

(ch) a ydyw ef neu hi hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer eu mabwysiadu.

Gwybodaeth am berthnasau eraill y plentyn ac unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol

12. Enw, rhyw a dyddiad a man geni.

13. Cenedl(**3**).

14. Cyfeiriad, os yw'n briodol.

Hanes y teulu a pherthnasau

15. A oedd mam a thad y plentyn yn briod â'i gilydd adeg geni'r plentyn (neu a ydynt wedi priodi ar ôl hynny) ac os felly, dyddiad a man y briodas ac a yw'r rhieni wedi ysgaru neu wedi gwahanu.

(**1**) Yn y cyd-destun hwn ni wahaniaethir rhwng gwahanol rannau o'r D.U.
(**2**) Yn y cyd-destun hwn ni wahaniaethir rhwng gwahanol rannau o'r D.U.
(**3**) *Gweler* (**1**) uchod.

16. Os nad oedd rhieni'r plentyn yn briod a'i gilydd ar adeg geni'r plentyn, a oes gan dad y plentyn gyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac os felly sut y cafwyd ef.

17. Os na wyddys pwy yw tad y plentyn na ble y mae, yr wybodaeth amdano sy'n hysbys a phwy a'i rhoes, a'r camau a gymrwyd i ddarganfod tadolaeth.

18. Os bu rhieni'r plentyn yn briod neu wedi ffurfio partneriaeth sifil, dyddiad y briodas neu yn ôl y digwydd, dyddiad a man cofrestru'r bartneriaeth sifil.

19. I'r graddau y mae'n bosibl, coeden deulu a manylion teidiau a neiniau'r plentyn, ei fodrybedd a'i ewythredd a'u hoedran (neu eu hoedran pan fuont farw).

20. Os yw'n rhesymol ymarferol, cronoleg dau riant y plentyn ers eu genedigaeth.

21. Sylwadau rhieni'r plentyn am eu profiadau hwy am y rhiant a gawsant yn eu plentyndod a sut y dylanwadodd hyn arnynt.

22. Y berthynas a fu a'r berthynas bresennol rhwng rhieni'r plentyn.

23. Manylion am y teulu ehangach a'u rôl a'u pwysigrwydd —

(a) i rieni'r plentyn; a

(b) i unrhyw frodyr neu chwiorydd y plentyn.

Gwybodaeth arall am ddau riant y plentyn ac os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, y tad

24. Gwybodaeth am eu cartref a'r gymdogaeth y maent yn byw ynddi.

25. Manylion hanes eu haddysg.

26. Manylion hanes eu cyflogaeth.

27. Gwybodaeth am gynneddf rianta mam a thad y plentyn, yn enwedig eu gallu a'u parodrwydd i rianta'r plentyn.

28. Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai fod o gymorth i'r panel mabwysiadu neu'r asiantaeth fabwysiadu.